Swydd wag ar gyfer Hyfforddwr Gyrru

1x Swydd parhaol - Amser Llawn - 37 awr yr wythnos
Graddfa 7 – 9 (Yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad)

CYFLOG
Gradd 7 - £21,693 - £23,111
Graddfa 8 - £23,866 - £25,463
Gradd 9 - £26,470 - £28,221

Noder: Mae pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd

Mae'r cyfleoedd uchod wedi codi fewn ein Hadran Hyfforddi a Datblygu a leolir yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd, Heol yr Eglwys, Pentref Llaneirwg, Caerdydd, CF3 6YA. Cyfle ardderchog yw hwn i unigolion ennill profiad a gwybodaeth sylweddol wrth ddarparu hyfforddiant gyrru golau glas, gweithredu fforch godi, gweithredu craen ar gefn cerbyd a sgiliau hyfforddi gyrru allweddol eraill.

Bydd y deiliad swydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddatblygu a hyfforddi personél Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac asiantaethau eraill mewn hyd at ddau o'r tri chategori isod:-

- Cerbydau Nwyddau Mawr (LGV), Cerbyd Ysgafn (LV), Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwyr (ERDT), cerbydau oddiar y lôn, Cerbydau Cludo Teithwyr (PCV), cerbydau ysgafn a thynnu ôl-gerbydau.

- Hyfforddwr Gyrru Cerbydau Arbenigol (yn gymwys ym mhob gwahanol gategori o gerbydau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth hwn).

Bydd y cyflog cychwynnol yn seiliedig ar sgiliau a chymwysterau'r ymgeiswyr llwyddiannus adeg eu penodi. Wrth iddynt ddatblygu ac ennill cymwysterau perthnasol eraill, bydd eu cyflogau'n cynyddu yn dilyn hyn.

Mae pob penodiad yn amodol ar wiriad trwydded yrru, prawf alcohol a chyffuriau ac archwiliad meddygol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.